

Bywgraffiad

Mae'r delynores Gymreig **Gwenllian Llŷr** yn prysur ennill cydnabyddiaeth rhyngwladol am ei pherfformiadau carismatig ac egniol. Yn 2013, enillodd Gwenllian wobwr yng Nghystadleuaeth Rhyngwladol UDA yn Bloomington, gan gael ei chanmol am ei dawn cerddorol a'i gallu i gysylltu â chynulleidfaoedd. Mae hi hefyd wedi ennill nifer o wobrau yn fwy lleol, gan gynnwys y Rhuban Glas yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012, a'r Wobr Gyntaf yng Nghystadleuaeth Telyn Camac y Deyrnas Unedig yn 2010. Cafodd Gwenllian hefyd ei henwi fel Artist gyda City Music Foundation yn 2017, a rhyddhau ei CD cyntaf, 'O Wyll i Wawr'.

Graddiodd Gwenllian gyda Dosbarth Cyntaf o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Meistr Cerddoriaeth o Ysgol Juilliard, lle gwobrwywyd hi Gwobr William Schuman am gyflawniad ac arwainyddiaeth rhagorol yng ngerddoriaeth. Gwenllian oedd y delynores gyntaf i gwblhau Diploma Uwch yn yr Academi Gerdd Frenhinol yn Llundain, gyda chefnogaeth Ysgoloriaeth Elton John. Mae ei gyrfa wedi ei harwain ar draws y byd gyda pherfformiadau mewn lleoliadau mawreddog megis Neuadd Dewi Sant, Palas Buckingham, Carnegie Hall a Royal Albert Hall, gydag artistiaid adnabyddus, megis Rebecca Evans, Imogen Cooper, Al Jarreau, Matthew Rees a Bryn Terfel. Mae Gwenllian yn awchu am gyfleoedd i arddangos hyblygrwydd y delyn fel offeryn, gyda pherfformiadau diweddar yn cynnwys: datganiad telyn unawdol ar Rheilffordd Ffestiniog i Live Music Now; rhaglen o gyfansoddiadau cyfoes i delyn a llais ym Mhrifysgol Caerdydd; concerto gyda Cerddorfa St John's yn St John's Smith Square; perfformiad telyn a soddgrwth o 'The Swan' gan Saint-Saëns gyda dawnsiwr ym Mhalas Kensington.

Yn gyfochrog â'i gyrfa perfformio, mae Gwenllian yn athrawes ymrwymedig, megis fel athrawes preifat, arweinydd gweithdy, fel cynorthwy-ydd i gyfansoddwyr neu mewn dosbarth meistr cyhoeddus lle bydd cyngor ar gael i'r perfformwyr a'r gynulleidfa. Mae ganddi dros ddegawd o brofiad yn dysgu myfyrwyr o bob lefel, gallu ac oedran, ac yn defnyddio ei sgiliau cyfansoddi i'w helpu i ddatblygu. Bydd y flwyddyn ganlynol yn llawn datblygiadau cyffroes, gan gynnwys rhyddhau CD Newydd a chyhoeddi mwy o gerddoriaeth. Am fwy o wybodaeth am berfformiadau a phrosiectau diweddar, ymwelwch a'i gwefan: www.GwenllianLlyr.com.